## Hysbysiad preifatrwydd Gwasanaethau Gofal Iechyd Tramor

Mae Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn gyfrifol ar y cyd am y gwasanaeth hwn o dan Drefniant Cyd-reolwr.

Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi parhau yn dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn dangos pam a sut mae'r ddau sefydliad yn trin eich data yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE a'i gytundeb â'r Swistir. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran 'Cytundeb y DU-Swistir'.

**Gwneud cais am ad-daliad Gordal Iechyd Mewnfudo (IHS).**

Mae gan Wasanaethau Gofal Iechyd Tramor (OHS) awdurdod i wneud taliadau ad-daliad IHS os ydych yn gymwys. Os ydych wedi gwneud cais am ad-daliad o'ch IHS efallai y byddwch am ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd IHS a ddangosir yma oherwydd efallai y byddwn yn gofyn am ac yn trin eich data yn wahanol.

**Pam rydym yn prosesu'ch gwybodaeth**

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni i:

- brosesu a gwirio'ch cais
- darparu cymorth a chyngor priodol sy'n berthnasol â gofal iechyd sy'n gysylltiedig â'ch ymholiad
- gwneud taliadau i wledydd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), y Swistir a Gibraltar
- hawlio cost triniaeth a ddarperir gan y DU o wledydd o fewn yr AEE, y Swistir a Gibraltar
- ad-dalu proses y Gordal Iechyd Mewnfudo os yw'n briodol
- dadansoddi gyda gwybodaeth cleifion eraill i ddeall patrymau a thueddiadau a fydd yn cael eu defnyddio i gynllunio a gwneud gwelliannau i wasanaethau'r GIG, a/neu ofal uniongyrchol i gleifion

Os bydd gennych bensiwn y GIG ac nad oes gennym y manylion diweddaraf ar eich cyfer, gallwn ddefnyddio'ch gwybodaeth i ddiweddaru ein cofnodion. Mae hyn yn digwydd er mwyn i ni allu cyflawni ein rhwymedigaeth gyfreithiol i anfon gwybodaeth atoch am eich buddion pensiwn y GIG.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni brosesu'r wybodaeth hon i allu darparu'r gwasanaeth hwn.

Byddwn yn gofyn i chi am:

- eich cyfeiriad fel y gallwn gadarnhau eich preswylfa a'ch cymhwysedd
- eich cyfeiriad e-bost i'ch diweddaru ynghylch eich hawl
- gwybodaeth i'ch adnabod
- eich rhif Yswiriant Gwladol

Os y bo'n briodol, byddwn yn gofyn i chi am:

- wybodaeth i nodi'ch dibynnydd(dibynyddion) a gwirio eu hawl
- manylion y darparwr gofal iechyd rhyngwladol byddwch yn derbyn triniaeth ganddo
- gwybodaeth am eich Pensiwn Gwladol neu unrhyw bensiynau eraill y byddwch yn eu derbyn gan yr UE, yr AEE a'r Swistir
- gwybodaeth am unrhyw fudd-daliadau y byddwch yn eu derbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) tra'ch bod yn byw yn yr UE, yr AEE, y Swistir a Gibraltar
- gwybodaeth am y cyflwr(cyflyrau) meddygol rydych wedi derbyn neu y byddwch yn derbyn triniaeth ar eu cyfer
- gwybodaeth i gadarnhau eich statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) neu'ch hawl i breswylio yn y DU
- gwybodaeth am eich cwrs astudio
- gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch gwaith dramor
- eich manylion banc er mwyn gwneud taliadau ad-daliad i chi
- eich rhyw fel y'i cofnodwyd yn erbyn eich cofnod y GIG, neu rif y GIG i'n galluogi i baru a gwirio statws EUSS

Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU, yr AEE, y Swistir na Gibraltar.

**Rhannu'ch gwybodaeth bersonol**

I ddilysu ac awdurdodi ceisiadau rydych yn eu gwneud, lle bo hynny'n berthnasol, mae'n bosibl y byddwn yn rannu eich gwybodaeth â:

- Indesser, Equifax a Lexis Nexis, sy'n ddarparwyr data trydydd parti sy'n gweithredu ar ein rhan, a fydd yn cyflawni gwiriad preswylio yn y DU neu'n perfformio olrhain i sefydlu'ch cyfeiriad preswyl yn y DU pan na wyddys y cyfeiriad a bod cais wedi'i wneud ar eich cyfer
- y DWP i ddilysu gwybodaeth am eich pensiwn, ac unrhyw fudd-dal rydych yn ei dderbyn gan y DWP tra'ch bod yn byw yn yr UE, yr AEE, y Swistir a Gibraltar, ac unrhyw drydydd partïon sy'n gweithredu ar eu rhan i wneud taliadau yn erbyn eich hawliau
- Cyllid a Thollau EM (CTEM) i ddilysu'ch gwybodaeth am hawl S1
- GIG Digidol i ddilysu Statws EUSS
- gwledydd o fewn yr AEE a'r Swistir, i ddilysu gwybodaeth am eich pensiwn ac, os y bo'n briodol, gwneud a derbyn taliadau
- GIG Lloegr, yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Gibraltar fydd yn awdurdodi'ch cais am driniaeth wedi'i chynllunio neu'n helpu i ddilysu unrhyw anfonebau neu hawliadau a wneir ar eich rhan
- darparwyr a gweinyddwyr gofal iechyd rhyngwladol a ddarparodd eich triniaeth i ddilysu'r wybodaeth rydych yn ei rhoi
- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) neu Awdurdodau Denmarc er mwyn gwneud taliad i chi

- eich teulu a'ch cynrychiolwyr (er enghraifft, os na allwch gyflwyno'ch cais eich hun)
- cyfleusterau triniaeth yn y DU, yr AEE, y Swistir a Gibraltar i ddilysu hawliadau a wnaed ar eich rhan, neu i gyflwyno hawliad i'r AEE, y Swistir neu Gibraltar am driniaeth rydych wedi'i derbyn yn y DU
- DHSC neu Adran Gyfreithiol y Llywodraeth i ddarparu cyngor polisi neu gyfreithiol
- Awdurdod Iechyd Gibraltar os byddwch yn byw neu'n derbyn triniaeth yn Gibraltar
- Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) os byddant yn eich cynorthwyo gyda chais

Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth bersonol gyda'r darparwr gofal iechyd rhyngwladol sy'n gofalu amdanoch, y wlad rydych yn dewis byw ynddi a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae hyn er mwyn caniatáu iddynt brosesu ac ail hawlio cost eich triniaeth o'r DU.

Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'ch gwybodaeth gyda'r canlynol i ddilysu unrhyw wybodaeth arall rydych wedi'i darparu:

- DWP
- CTEM
- DHSC
- GIG Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

Er mwyn atal, canfod ac ymchwilio i dwyll a gwallau, efallai y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth gyda:

- Darparwyr a gweinyddwyr gofal iechyd rhyngwladol rydych yn derbyn triniaeth ganddynt
- Cynghorau Lleol ac Awdurdodau'r GIG
- Asiantaethau cyfeirio credyd
- Cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran y sefydliadau uchod
- Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG
- DHSC - Yr Is-adran Ryngwladol a'r Uned Gwrth-Dwyll
- Sefydliadau gorfodi'r gyfraith, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith

Er mwyn cefnogi cynllunio a gwelliannau mwy effeithiol i wasanaethau'r GIG a gofal cleifion, efallai y byddwn yn rhannu ein dealltwriaeth o'r patrymau a'r tueddiadau a gafwyd o wybodaeth i gleifion gyda:

- Comisiynwyr y GIG a darparwyr gwasanaeth
- GIG Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon
- DHSC
- Awdurdod Gwrth-Dwyll y GIG

**Cadw'ch gwybodaeth bersonol**

Er mwyn caniatáu i hawliadau costau triniaeth a wneir yn agos at y dyddiad y mae'ch cerdyn yn dod i ben gael eu prosesu, byddwn yn dileu eich data personol o'n systemau a'n ffeiliau erbyn dim hwyrach na:

- 30 Mehefin 2171 os byddwch yn gwneud gais am Gerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd y DU (EHIC) a bod gennych statws EUSS. Mae hyn er mwyn caniatáu dilysu ceisiadau gan bobl y mae eu hawl yn deillio o'ch un chi. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn yr adran ‘Pobl y mae eu hawl yn deillio o’ch un chi’.
- 48 mis ar ôl i'ch EHIC y DU ddod i ben os nad oes gennych statws EUSS
- 48 mis ar ôl i'ch Cerdyn Yswiriant Iechyd Byd-eang (GHIC) y DU ddod i ben

Byddwn hefyd yn dileu'ch data personol o'n systemau a'n ffeiliau erbyn dim hwyrach na:

- 7 mlynedd o'r adeg y proseswyd eich Tystysgrif Amnewid Dros Dro (PRC) neu S2 - i ganiatáu prosesu hawliadau cost triniaeth a wneir
- 7 mlynedd o'r dyddiad yr hysbysir NHSBSA nad oes gennych hawl i'ch S1 bellach.
- 7 mlynedd o'r dyddiad y gwneir taliad neu mae cais am dalu costau triniaeth wedi'i gau
- 24 mis o ddyddiad penderfyniad ar gyfer unrhyw geisiadau a wrthodwyd ar gyfer GHIC y DU, EHIC y DU, PRC, S1 ac S2

**Eich hawliau**

Bydd y wybodaeth a roddwyd gennych yn cael ei rheoli fel sy'n ofynnol gan y gyfraith Diogelu Data.

Mae gennych hawl i:

- dderbyn copi o'r wybodaeth sydd gan yr NHSBSA amdanoch
- gofyn i'ch gwybodaeth gael ei newid os byddwch yn credu nad oedd yn gywir ar yr adeg y gwnaethoch ei rhoi
- gofyn i'ch gwybodaeth gael ei dileu os byddwch yn credu bod yr NHSBSA yn ei chadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol

Dewch o hyd i fwy o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu gwybodaeth.

**Cytundeb rhwng DU-Swistir**

Mae Confensiwn y Swistir-DU ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol (UK CH SCC) yn disgrifio'r gofal iechyd y gallwch ei dderbyn wrth deithio yn y DU a'r Swistir. Mae darpariaethau gofal iechyd cyfatebol yn y cytundeb yn berthnasol i drigolion y DU a’r Swistir ac yn cwmpasu unigolion sydd â:

- chenedligrwydd y DU, yr UE neu’r Swistir,

- phersonau heb wladwriaeth a ffoaduriaid.

Ni fydd y rhai nad ydynt yn dod o dan y cytundeb yn gallu cael yswiriant gofal iechyd cyfatebol o dan y cytundeb hwn, heblaw eu bod yn aelod o deulu rhywun o fewn y cwmpas.

**Pobl y mae eu hawl yn deillio o'ch un chi**

O dan Erthygl 10(1)(e)(iii) o'r Cytundeb Tynnu'n Ôl, bydd unrhyw unigolyn a anwyd i neu a fabwysiadwyd gan y deiliad cywir ar ôl 31 Rhagfyr 2020 (plant y dyfodol) o fewn cwmpas llawn y Cytundeb.

Trwy estyniad, o dan Erthygl 30 y Cytundeb Tynnu'n Ôl, cynhwysir aelodau'r teulu a goroeswyr plant y dyfodol gan reoliadau'r UE ar gydgysylltiad nawdd cymdeithasol, i'r graddau hynny eu bod yn deillio hawliau neu rwymedigaethau fel aelod o'r teulu.